Michael y dyn llefrith

(parodrwydd i helpu / byw er mwyn eraill)

Llwybreiddiodd y fan lefrith yn araf ar hyd strydoedd Tylorstown, yn Sir Forgannwg. Roedd Michael Buckley wedi codi yn ôl ei arfer am dri o'r gloch y bore ac erbyn un ar ddeg roedd wedi cwblhau'r rownd lefrith. "Paned bach ar ôl mynd adref gan obeithio y caf gwsg bach ar ôl cinio." Dyna oedd trefn bob dydd i Michael. Wedyn pan fyddai'n hanner awr wedi tri edrychai ymlaen at weld y plant yn dod o'r ysgol.

Wrth i Michael edrych o'i gwmpas digwyddodd edrych i fyny at lofftydd un o'r tai. Edrychodd unwaith eto. Stopiodd y fan a daeth allan ohoni. Yno'n sefyll ar sil ffenest un o'r llofftydd roedd plentyn bach. Doedd o ddim yn sicr, ar y pryd, p'un ai bachgen neu eneth oedd yno. Doedd o ddim am dynnu sylw'r plentyn. Cerddodd yn araf i fyny'r llwybr at ddrws ffrynt y tŷ. Cadwodd ei lygaid ar y plentyn. Roedd yn symud yn araf ar y sil ffenestr. Cnociodd y drws yn galed un waith. Dim ateb. Curodd unwaith eto'n galetach ond dim ateb. Gwelai fod y plentyn yn dechrau symud yn ôl a blaen ar y sil. Plygodd ymlaen...yna digwyddodd. Llamodd Michael o ddrws y tŷ. Roedd y ferch fach yn syrthio. Daliodd hi ychydig fodfeddi oddi ar y ddaear goncrit. Yn anffodus tarodd ei phen ar y llawr. Cododd Michael hi yn ei freichiau. Erbyn hyn roedd rhai o'r cymdogion wedi dod allan i geisio helpu.

"Galwch yr ambiwlans," meddai Michael.

Roedd gan y dyn dros y ffordd ffôn symudol a galwodd 999. Cyn pen dim, wyth munud i fod yn fanwl gywir, cyrhaeddodd yr ambiwlans. Erbyn hyn roedd mam y ferch fach wedi sylweddoli fod yna gynnwrf yn digwydd o gwmpas y tŷ. Roedd hi wedi bod yn golchi yn y cefn a heb sylweddoli fod Cerys, pedwar mis ar ddeg, wedi mynd i fyny i'r llofft. Roedd hi wedi dringo ar ei theganau ac wedi mynd allan drwy'r ffenest oedd yn gil agored.

"Bydd rhaid i ni fynd â hi'n syth i'r ysbyty," meddai un o'r dynion ambiwlans, "rhag ofn ei bod wedi gwneud niwed i'w phen." Erbyn hyn roedd Cerys yn beichio crio ac yn crynu drwyddi. Aeth hi a'i mam i mewn i'r ambiwlans a ffwrdd â nhw tua'r ysbyty a'r golau glas yn fflachio.

Bu'r cymdogion yn sgwrsio am hydoedd efo Michael.

"Sut wnaethoch chi sylwi fod yr eneth fach yn y ffenestr?"

gofynnodd un.

"Mae'n rhaid eich bod chi'n ffit iawn i lamu fel 'na a dal yr eneth fach cyn iddi daro'r llawr," meddai un arall o'r dynion.

"Wel," meddai Michael, "pan oeddwn i'n ifanc roeddwn i'n chwarae rygbi i'r tîm rygbi lleol. A'r pryd hwnnw roeddwn i'n arfer sgorio ceisiau. Ond rydw i wedi mynd yn rhy hen i wneud hynny y dyddiau hyn."

"Yn wir," meddai un o'r dynion, "roedd hwnna'n gais anfarwol. Cais gora'ch bywyd."

Adnod: "Arian ac aur nid oes gennyf i ond yr hyn sydd gennyf, hynny yr wyf yn ei roi i ti." Actau 3:6

Gweddi: Diolch i ti, Arglwydd, am bobl gyffredin fel Michael y dyn llefrith sy'n barod i fentro'u bywydau er mwyn eraill. Amen.

Trafod:

- Chwiliwch yn y papurau newydd am straeon tebyg i hon.
- Oeddech chi'n credu fod y fam yn esgeulus?